

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2018 No. 400**

**Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru  
(Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018**

**Chwilio personau**

**5. Caiff ACC chwilio person—**

- (a) pan ganfyddir y person mewn mangre sy'n cael ei chwilio gan ACC drwy ddibynnu ar warant a ddyroddwyd o dan adran 8 o Ddeddf 1984, neu baragraff 12 o Atodlen 1 iddi; a
- (b) pan fo gan ACC achos rhesymol i gredu bod y person hwnnw yn meddu ar ddeunydd sy'n debygol o fod o werth sylweddol (pa un ai ar ei ben ei hun neu ynghyd â deunydd arall) i ymchwiliad perthnasol.